

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 27 Mehefin 2000  
**Amser:** 10.45am  
**Lleoliad:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Yn bresennol:** Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd  
Y Trefnydd  
Ieuan Wyn Jones, Trefnydd Busnes Plaid Cymru  
David Melding, y Blaid Geidwadol  
Jenny Randerson, Trefnydd Busnes y Democratiaid  
Rhyddfrydol  
John Lloyd, Clerc y Cynulliad  
Barbara Wilson, Dirprwy Glerc y Cynulliad  
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r  
Llywydd  
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes  
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd  
Craig Stephenson, Ysgrifennyddiaeth y Siambr  
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

**1. Ymddiheuriadau**

1.1 William Graham. Yr oedd David Melding yn bresennol yn ei le, yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

2.1 **BC169-00(cyfarfod 13 Mehefin)** - Cytunwyd ar y cofnodion, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

**Gweithredu: Craig Stephenson i ddiwygio'r cofnodion**

2.2 **BC195-00 (cyfarfod 20 Mehefin)** - cynigiwyd rhai mân ddiwygiadau. Caiff y rhain eu hymgorffori cyn cymeradwyo'r cofnodion yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Craig Stephenson i ddiwygio'r cofnodion**

**3. Materion yn codi (BC195-00)**

3.1 **Paragraff 5.5** - Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid paratoi datganiad safbwynt ar ganllawiau'r Cynulliad (y rhai presennol a'r rhai wedi'u hadolygu) ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 11 Gorffennaf a phob chwarter wedi hynny. **Gweithredu: Cangen y Gwasanaethau Canolog a Gwasanaethau i'r Aelodau**

3.2 **Paragraff 5.6** - Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'r ffolder enghreifftiol ar gael ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Busnes ar ôl yr wythnosau yn yr

## etholaethau dros yr haf. **Gweithredu: Cangen y Gwasanaethau Canolog a Gwasanaethau i'r Aelodau**

3.3 **Paragraffau 8.2 a 8.3** - cadarnhaodd y Trefnwyr Busnes eu bod yn dal yn fodlon y dylai'r ddau orchymyn drafft hwn lynu at y weithdrefn arfaethedig wedi'i chyflymu.

### **4. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC199-00 a oedd yn cynnwys darn o'r cofnod swyddogol ynghylch safbwyntiau'r Llywydd ar arddel moesau San Steffan pan fyddai Aelodau'n siarad am Aelodau eraill yn y cyfarfod llawn, ac ynghylch a ddylid sefydlu protocol ar y berthynas rhwng Trefnwyr Busnes a'i gilydd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei bod am ystyried y ddau fater ar wahân. O ran moesau San Steffan, ystyriai'r Trefnwyr Busnes y byddai penderfyniad gan y Llywydd, a fyddai'n cael ei ddarllen yn y cyfarfod llawn, yn ffordd ymlaen. Fodd bynnag, os na ellid dod i gytundeb ar hyn, efallai y byddai angen ystyried diwygio'r Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr, a byddai angen sêl bendith y Cynulliad cyfan yn y cyfarfod llawn i wneud hynny. Cytunodd Aelodau y dylid ystyried y mater hwn ac adrodd yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Trefnwyr Busnes i ystyried ac adrodd yn ôl erbyn y cyfarfod nesaf**

4.2 O ran protocol ynghylch perthynas Trefnwyr Busnes â'i gilydd, mae'r Dirprwy Lywydd wedi siarad â'r Llywydd, gan ei bod yn gryf ei barn nad mater i'r Pwyllgor Busnes oedd hwn. Yr oedd o'r farn ei bod yn hollol amhriodol i'r Pwyllgor Busnes gymryd rhan mewn trafodaethau gwleidyddol neu'r modd y caiff perthynas y Trefnwyr Busnes y tu allan i'r Pwyllgor Busnes ei rheoli. Byddai angen monitro a chadw llygad barcud ar brotocol o'r fath, ac ni fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor Busnes wneud hynny ar sail y trafodaethau a gynhaliwyd yn breifat rhwng y Trefnwyr Busnes. Cafwyd ar ddeall nad oedd gan y Llywydd unrhyw wrthwynebiad. Cytunodd Jenny Randerson a David Melding y byddai'n anodd deddfu ar faterion ynghylch ymddiriedaeth. Cytunodd y Trefnydd na allai weld sut y gallai protocol o'r fath weithio'n llwyddiannus. Yr oedd Ieuan Wyn Jones yn arbennig o bryderus y dylid sefydlu rhyw fath o fecanwaith i sicrhau nad yw materion sy'n cael eu trafod yn gyfrinachol yn y Pwyllgor Busnes yn cael eu gwyntyllu i'r cyhoedd a'r wasg yn ystod cyfarfodydd llawn. Teimlai'r Trefnydd, yn absenoldeb Ieuan Wyn Jones, fod tor-ymddiriedaeth wedi digwydd gan ei gynrychiolydd, ac roedd felly'n ymateb. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnwyr Busnes ystyried y mater ymhellach y tu allan i'r Pwyllgor Busnes. **Gweithredu: Trefnwyr Busnes i ystyried ymhlith ei gilydd, ac ailgodi'r mater yn y Pwyllgor Busnes os ydynt o'r farn fod hynny'n briodol**

4.3 Yr oedd y Pwyllgor yn bryderus fod y Llywydd wedi datgan fod tensiynau difrifol yn y Pwyllgor Busnes. Teimlodd Jenny Randerson fod y Pwyllgor wedi gweithio'n dda ar hyd yr amser, a byddai datganiad o'r fath yn rhoi'r argraff anghywir i'r cyfryngau ac Aelodau. Yr oedd am gael gwared ar unrhyw deimladau fod y Pwyllgor yn llawn tensiwn a theimladau gwael. Ychwanegodd y Trefnydd fod y Pwyllgor yn hynod llwyddiannus o ran rheoli

busnes y Cynulliad ac y dylid rhoi clod arbennig iddo. Cytunodd y Pwyllgor, er bod tensiynau'n bodoli ynghylch ambell fater penodol, eu bod wedi cydweithio'n arbennig o dda wrth ymdrin â materion o'r fath. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n siarad â'r Llywydd ac yn gofyn iddo ystyried egluro'r sefyllfa yn hyn o beth.

**Gweithredu: Dirprwy Lywydd i drafod â'r Llywydd**

## **5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau**

5.1 Derbyniodd y Trefnydd sêl bendith ei grŵp i'r cynnig i symud cyfarfod llawn dydd Mercher i fore Iau. Fodd bynnag, yr oedd Aelodau'r Gogledd yn gryf o'r farn y dylid neilltuo prynhawn Iau i deithio i etholaethau yn y Gogledd. Gofynnodd i'r Trefnwyr Busnes hefyd a fyddai'n briodol dechrau'r Pwyllgor Busnes am 8.30am a'r Pwyllgor Deddfau am 9.00am. Yn amodol ar sêl bendith y Llywydd, teimlai'r Trefnwyr Busnes y gallent gytuno'n anffurfiol i ddechrau'r Pwyllgor Busnes am 8.30am, ond na fyddai'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Pwyllgor Deddfau ddechrau cyn 9.00am. Cytunodd y Trefnydd i ystyried amser dechrau'r Pwyllgor Deddfau ymhellach, a chytunodd Ysgrifenyddiaeth y Siambr i ymgynghori ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau.

**Gweithredu: Dirprwy Lywydd i ymgynghori â'r Llywydd ynghylch dechrau'r Pwyllgor Busnes am 8.30am; y Trefnydd i ystyried amser dechrau'r Pwyllgor Deddfau; Ysgrifenyddiaeth y Siambr i ymgynghori ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor hefyd bapur BC166-00 a oedd yn cynnwys sylwadau'r BBC ac S4C2 ynghylch symud y cyfarfod llawn i fore Iau. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r cyfarfod llawn dechrau mor gynnar â phosibl ar ôl 9.00am, er mwyn caniatáu i'r clodrestrau a'r darllediadau byw gael eu cyflwyno. Byddai angen cyfleu'r farn hon i'r darlledwyr. **Gweithredu: Manon Williams**

## **6. Pwyllgorau**

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC197-00 a chytunwyd arno. Papur oddi wrth y Pwyllgor Cyfle Cyfartal oedd hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnal cyfarfod ychwanegol ar 11 Gorffennaf. Gofynnwyd am hyn oherwydd ei fod y tu allan i amserlen reolaidd cyfarfodydd y Cynulliad.

## **7. Busnes i'w drafod yn y dyfodol**

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC198-00) fel y'i diwygiwyd gan y Trefnydd.

## **Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn 3 a 10 Gorffennaf a 11 Medi 2000**

7.2 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ynghylch ei ddatganiad arfaethedig am drefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn 3 a 10

Gorffennaf a 11 Medi oedd y dylid bwrw ymlaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft diwygiedig.

7.3 Ychwanegodd y Trefnydd y byddai'r Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad yn ystod cyfarfod llawn y prynhawn hwnnw ynghylch arian Amcan 1. O ran y datganiad ynghylch Canolfan y Mileniwm a ohiriwyd yr wythnos flaenorol, dywedodd y Trefnydd ei fod yn credu y byddai'n cael ei gynnal y diwrnod canlynol. Er hynny, cytunodd i ofyn i Tom Middlehurst a oedd hynny'n wir ai peidio.

7.4 Dywedodd y Trefnydd na fyddai'r Rheoliadau Ansawdd Aer yn cael eu cynnal y prynhawn hwnnw gan fod ei swyddfa wedi anghofio cyflwyno'r arfarniad rheoliadol a chanlyniadau'r broses ymgynghori. Byddai'n cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf, ond ni fyddai'n rhan o'r cynnig cyfansawdd i'w gymryd ar y diwrnod hwnnw, gan fod Ieuan Wyn Jones yn gwybod y byddai Aelodau ei blaid am drafod egwyddor y cynnig.

7.5 Nododd y Trefnydd hefyd y byddai dadl ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn cael ei chynnal ar 12 Gorffennaf.

7.6 Gofynnwyd i Drefnwyr Busnes ddarparu unrhyw sylwadau ynghylch cynllun y Sector Gwirfoddol i Marion Stapleton erbyn amser cinio dydd Iau 29 Mehefin.

## **Gweithredu: Trefnwyr Busnes**

### **8. Is-ddeddfwriaeth**

8.1 Dim

### **9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog**

9.1 Dim

### **10. Penderfyniadau'r Llywydd**

10.1 Dim

### **11. Unrhyw fater arall**

11.1 Dosbarthwyd copi o lythyr Mike German (fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau) at y Dirprwy Lywydd i aelodau'r Pwyllgor, yn barod ar gyfer trafod ei gynnwys ym Mhwyllgor Busnes is-ddeddwriaeth y diwrnod canlynol.

11.2 Dosbarthwyd copi o ffigurau presenoldeb Aelodau yn y pwyllgorau rhanbarth i'r Pwyllgor er gwybodaeth, fel y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol.

11.3 Dosbarthwyd llythyr ynghylch Young Voice/Llais Ifanc i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

## **YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**